Uned 8.2 Gwybodaeth: dibynadwyedd, dilysrwydd a thuedd

Ynglŷn â'r Uned:

Yn yr uned hon, bydd disgyblion yn ymestyn ac yn mireinio dulliau chwilio. Byddant yn archwilio' rrhyngrwyd fel ffynhonnell o wybodaeth ac yn ystyried pwysigrwydd gwerthuso'r wybodaeth y maen nhw'n dod o hyd iddi o ran ei dibynadwyedd, ei dilysrwydd a'i thuedd posib. Yn olaf, byddant yn penderfynu i ba raddau mae'r wybodaeth a ddarganfuwyd yn werth yr ymdrech o chwilio amdani ac i ba raddau y mae'n berthnasol.

Dylunir y runed hon yn bennaf i ddisgyblion yn gweithio ar lefel 5, gyda gwaith ymestyn ar gyfer disgyblion mwy galluog. Awgrymir addasiadau a deunyddiau ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd â llai o bbrofiad neu ar gyfer disgyublion sy'n gweithio ar y lefelau is.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar uned 2 'Gwybodaeth a Chyflwyniad' ac uned 8 'Systemau Gwybodaeth Cyhoeddus', ac efallai bydd cyd-destun amgylcheddol ganddi hefyd.

Disgwyliadau

Ar ddiwedd yr uned hon:

bydd mwyafrif y disgyblion: yn dod o hyd ac yn defnyddio nifer o ffynonellau i ddewis gwybodaeth berthnasol sy'n addas ar gyfer y dasg; yn mireinio'r wybodaeth a'i defnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus am y cyd-destun a'r negeseuon y mae nhw am eu trosglwyddo i'w cynulleidfa darged; yn defnyddio meini prawf i bwyso a mesur llwyddiant eu prosiect; yn trafod y goblygiadau o roi eu prosiect ar waith

ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant:: yn chwilio nifer o ffynonellau i ddod o hyd i wybodaeth; yn gallu cadw eu gwaith

bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant yn defnyddio meddalwedd gyflwyno ac yn trawsnewid eu gwybodaeth yn ddogfennau a ffurfiau electronig; byddant yn ddefnyddwyr mwy ymreolus o TGCh.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasaaneth EffeithiolIrwydd Addysg

Geirfa ac Adnoddau

Trwy'r gweithgareddau yn yr uned hon, bydd disgyblion yn gallu deall, defnyddio a sillafu'r eirfa ganlynol yn gywir:
- tynnu gwybodaeth, *e.e.allforio, mewnforio*
- chwilio, *e.e. cyfeiriad rhyngrwyd, peiriant chwilio, URL (lleolwr adnoddau unffurf)*

Darllen –trwy'r gweithgareddau gallai'r disgyblion:
- ddeall gwybodaeth na fynegir yn benodol neu y cymerir yn ganiataol bod y darllenydd yn ei deall

Mae Adnoddau'n cynnwys:
- mynediad i'r rhyngrwyd
- amrywiaeth o safleoedd rhyngrwyd, sydd wedi'u dewis a'u clustnodi yn barod
- CD-ROM (y gellir copïo testun a delweddu oddi wrthynt) gyda'r wybodaeth briodol
- porwr rhyngrwyd
- meddalwedd cyflwyno

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasaaneth Effeithiolrwydd Addysg

Gweithgaredd 1			
• bod cyfeiriad gwe yn lleoliad unigryw sy'n rhoi gwybodaeth am darddiad • bod peiriannau chwilio yn defnyddio technegau gwahanol • mae'n bosib mynegi barn a thuedd fel gwybodaeth ffeithiol	• dylai disgyblion adolygu chwilio'r rhyngrwyd. Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio amrywiaeth o beiriannau chwilio i chwilio pwnc penodol, *e.e. bwydydd wedi'u haddasu'n enetig.* Heb agor y safleoedd, trafodwch canlyniad eu chwiliadau gyda'r disgyblion, e.*e. pa safloedd sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol, beth mae'r teitl yn ei ddweud wrthym, pa fath o wybodaeth y mae'n bosib ei chanfod o URL, a yw'r safle'n ymddangos mwy nag unwaith ar restr*. Esboniwch beth mae peiriant chwilio yn ei wneud a sut mae'n trin symiau sylweddol o ddata. Trafodwch pa beiriannau chwilio yn cynhyrchu rhestrau gwahnol o'r ugain safle mwyaf poblogaidd a pham.	• chwilio'r rhyngrwyd yn systematig i ddod o hyd i wybodaeth • deall bod URL yn gallu rhoi gwybodaeth am ffynhonnell	• Gallai gwaith cartref gynnwys disgyblion yn paratoi i chwilio am eitemau sy'n ymwneud â bwyd.
Gweithgaredd 2			
• bod gwybodaeth yn gallu cael ei mynegi fel barn • bod meini prawf gwerthuso'n cael eu sefydlu ar ddechrau prosiect • bod llwyddiant yn gallu cael ei fesur gan ddefnyddio meini prawf sydd wedi'u hirsefydlu	• Cynnal sesiwn trafod syniadau ynghylch sut bydd y dysgyblion yn rhoi cynnig ar y prosiect. Trwy drafod, gadewch i'r disgyblion nodi pa wybodaeth fydd ei hangen arnynt, ac i ystyried sut byddant yn cael gafael arni – efallai gellir gwneud hyn fel gwaith cartref. Dangoswch graffiau o ddata sydd wedi'u paratoi i ddangos bod gwybodaeth yn cael ei darparu. Pwysleisiwch y gall gwybodaeth fod yn ansoddol (*nad yw'n hawdd ei mesur*) ac yn fesurol (*gellir ei mesur*). Mae'n bwysig i ddisgyblion sylweddoli, wrth iddynt werthuso a dadansoddi ffynonellau, y bydd yn rhaid iddynt fod yn ymwybodol o farn y person sydd wedi paratoi'r ffynhonnell a'r gwerthoedd diwylliannol, gwleidyddol a chymdeithasol sydd, o bosib, wedi dylanwadu ar y person	• gwneud penderfyniadau am y wybodaeth a fydd ei hangen i gwblhau prosiect • nodi gwybodaeth sy'n gallu bod yn rhagfarnllyd • adolygu cynnydd eu prosiect a'i ailgyfeirio yn ôl yr angen	• Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio meini prawf sydd wedi'u sefydlu eisoes i benderfynu a yw'r gwaith yn cynyddu fel y dylai. Gofynwch i'r disgyblion egluro beth sy'n dda am eu prosiect hyd yn hyn - wedyn cyfeiriwch at eu meini prawf. Ar ôl trafod, gall y disgyblion wneud unrhyw newidiadau priodol. Dylai hyn barhau yn ystod y proseict.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasaaneth Effeithiolrwydd Addysg

	hwnnw. Defnyddiwch safleoedd sydd wedi'u clustnodi eisoes i ddangos y pwyntiau hyn. • Gofynnwch i'r disgyblion ragfynegi canlyniadau posibl drwy ystyried cyd-destun a diben y prosiect. • Gofynnwch i'r disgyblion nodi meini prawf llwyddiant, *e.e. drwy ofyn cwestiynau 'pwy, beth, pryd, ble, pam a sut', efallai'n defnyddio cynlluniau gweithredu fel offer i ddatblygu'r prosiect.*		
Gweithgaredd 3			
• chwilio'r rhyngrwyd gan ddefnyddio peiriant chwilio priodol • casglu'r data priodol y gellir ei ddefnyddio, gan gynnwys testun a dynnwyd o ryddiaeth barhaus. • deall gwybodaeth na fynegir yn benodol neu a gymerir yn ganiataol bod y dadrllenydd yn ei deall	• Gofynnwch i'r digyblion gasglu data gan ddefnyddio chwiliadau systematig o ffynonellau gwybodaeth - nid oes rhaid cyfyngu eu chwiliad i'r rhyngrwyd. Gofynnwch disgyblion gadw log o'u chwiliadau a tharddiad y ffynonellau i alluogi cyflwyniadau i gynnwys cyfeiriadau. • Dangoswch i'r disgyblion sut i gadw eu chanlyniadau chwilio i'w defnyddio yn eu cyflwyniad, (e.e. cadw tudalen, cadw testun a graffeg a chadw fframiau). Anogwch y disgyblion i fynegi barn am ffynonellau a'u cywirdeb tra eu bod yn dewis deunydd i gefnogi'u safbwynt. • adolygwch gynnydd drwy ddefnyddio meini prawf i newid cyfeiriad y prosiect os oes angen.	• gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch dilysrwydd gwybodaeth • casglu data i'w ddefnyddio mewn cyflwyniad • tynnu gwybodaeth o ryddiaeth barhaus	• dylai athrawon neu ddisgyblion baratoi taflen log ar gyfer chwilio, gan gynnwys, *e.e. y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd, URL, geiriau allweddol, barn ar ddefnyddioldeb, ble mae'n cael ei leoli, math o gynnwys*. Gallai hyn ddigwydd yn sgîl gweithgareddau 1 a 2 • Gallai gwaith cartref gynnwys disgyblion yn adolygu gwybodaeth o ystod o ffynonellau sy'n cefnogi safbwynt cyffredinol

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasaaneth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 4			
• mireinio gwybodaeth i ganolbwyntio ar ddiben y cyflwyniad • bod gan becynnau meddalwedd gryfderau a gwendidau perthnasol	• Gofynnwch i'r disgyblion adolygu'r wybodaeth y maen nhw wedi'i chasglu er mwyn penderfynu ar ofynion y prosiect. • Gofynnwch i'r disgyblion adolygu nifer o nodweddion pecyn cyflwyno gan nodi ei fanteision a'i anfanteision • Yn olaf, gofynnwch i'r disgyblion gynllunio a pharatoi eu cyflwyniad. Dylid cydnabod ffynonellau gwybodaeth.	• cynhyrchu cyflwyniad ar destun sy'n cynrhychioli perspectif penodol. • gwneud penderfyniadau gybodus ynghylch yr offer meddalwedd y maen nhw'n eu defnyddio ar gyfer eu cyflwyniad	• parhau i gasglu gwybodaeth a dechrau ar y cynllunio cychwynnol ynghylch cynnwys y cyflwyniad. Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael a dewis cynnwys y cyflwyniad. • Gallai gwaith cartref gynnwys disgyblion yn ymestyn y broses gynllunio gan baratoi strwythur amlinellu eu cyflwyniad.
Gweithgaredd 5			
• defnyddio meini prawf gwerthuso • gwneud penderfyniadau gwybodus ar ansawdd y cyflwyniad	• Gofynnwch i'r disgyblion ddangos eu cyflwyniad, wedi'i gwblhau a gwerthuso llwyddiant eu cyflwyniad drwy ddefnyddio'r meini prawf y cytunwyd arnynt. • Trafodwch â'r disgyblion y duedd a oedd yn eu cyflwyniad, cywirdeb y wybodaeth a gynhwyswyd ynddo a beth gellir ei newid i leihau effaith y duedd.	• deall gwerth meini prawf llwyddiant o ran pennu llwyddiant prosiect • defnyddio meini prawf i wneud penderfyniadau am eu prosiect	• Bydd angen copi o'r meini prawf ar ddisgyblion, ac wedyn dylent gymryd pob un yn ei dro a'i gymhwyso i'r prosiect. Bydd yn rhaid iddynt benderfynu ar: – a ydynt wedi diwallu gofynion y meini prawf – pa mor dda mae pob meini prawf yn cael ei ddiwallu – ble mae angen gwneud gwelliannau – sut gellir gwella pob ardal o ddatblygiad • Gallai gwaith cartref gynnwys disgyblion yn ysgrifennu am y duedd yn eu cyflwyniad, beth gellir ei wneud i'w newid, a sut gallai

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasaaneth EffeithiolIrwydd Addysg

			tuedd effeithio ar gywirdeb a geirwiredd.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasaaneth EffeithiolIrwydd Addysg